Adnewyddu'r Prif Bibellau Dŵr yn Ardal Llanidloes

Rydym yn buddsoddi tua £1.5 miliwn yng nghanol ardal Llanidloes i adnewyddu dros 12km o'r prif bibellau dŵr presennol a sicrhau eu bod yn fwy dibynadwy.

Rydym yn bwriadu dechrau ar y gwaith ym mis Mai 2010, gyda'r nod o gwblhau'r cynllun erbyn Mai 2011.

Mae'r cynllun isod yn nodi ble bydd y gwaith yn digwydd.

Pam mae angen i ni wneud y gwaith hwn.
Rydym yn awyddus i sicrhau y gall ein cwsmeriaid yn Llanidloes fwynhau cyflenwad di-dor o ddŵr o ansawdd uchel. Mae llawer o'n pibellau wedi gwasanaethu'r gymuned ers blynyddoedd ac mae angen cael rhai newydd yn eu lle erbyn hyn.

Cysylltu
Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y gwaith hwn, cysylltwch â'n Canolfan Wasanaethu Gweithrediadau Cwsmer ar y rhif **0800 783 4444.**

Tri rheswm da dros beidio â thywallt braster, olew a saim (BOS) i lawr y sinc i'r carthffosydd:
1) Mae BOS yn caledu wrth daro waliau oer y garthffos ac mae hyn yn achosi rhwystr.
2) Yna mae rhwystrau yn peri i garthion gronni a gorlifo i'ch cartrefi ac i ffyrdd, parciau ac afonydd lleol.
3) Mae BOS yn gallu denu llygod mawr! Cadwch eich amgylchedd lleol yn lân a diogel, gwaredwch eich braster, olew a saim yn y ffordd gywir!
Cewch drap braster AM DDIM yn www.stwater.co.uk/fattraps neu ffoniwch y rhif 0845 603 4413.

Rhowch ef yn y bin nid i lawr y toiled!
Mae carthffosydd a draeniau ar gyfer gwastraff dynol, papur toiled, dŵr gwastraff a dim byd arall. Dylid gwaredu unrhyw eitemau eraill, hyd yn oed os nodir arnynt y gellir eu rhoi i lawr y toiled, yn y ffordd gywir, naill ai yn y bin neu yn y banc ailgylchu/gwaredu agosaf.

Peidiwch â rhoi'r eitemau canlynol i lawr y toiled:
• Eitemau'r misglwyf
• Clytiau parod
• Leininau
• Cadachau sychu babanod
• Cadachau glanhau
• Cyfarpar atal cenhedlu
• Ffyn cotwm

• Gwlân cotwm
• Ellynnau
• Brwsys dannedd
• Lensys cyswllt
• Padiau anymataliaeth
• Bagiau colostomi
• Rhwymynnau wedi'u defnyddio
• Plastrau
• Chwistrellau a nodwyddau
• Meddyginiaethau
• Teits
• Edau ddeintiol
• Bonau sigarét

Pum ffordd hawdd o arbed dŵr, ynni ac arian

Mae pawb yn rhanbarth Severn Trent Water yn defnyddio **133 litr (29 galwyn) o ddŵr y dydd** ar gyfartaledd, ac mae bron i draean hyn yn cael ei wastraffu heb ei ddefnyddio. Gallwn ni i gyd leihau'r gwastraff hwn trwy newid ychydig bach ar ein harferion bob dydd.

1 Rhowch fag arbed-gwacáu yn eich seston -
Mae cwsmeriaid sydd wedi gwneud hyn eisoes wedi arbed hyd at 4,000 litr o ddŵr bob blwyddyn.

2 Cymerwch funud yn llai i gael cawod – Mae pobl sydd wedi gwneud hyn eisoes yn arbed miloedd o litrau o ddŵr bob blwyddyn a gallant leihau eu costau ynni o ganlyniad.

3 Casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr - Mae cwsmeriaid sydd eisoes yn defnyddio casgen ddŵr yn casglu'r holl ddŵr y mae ei angen ar gyfer eu gardd a gallant arbed dros 1,000 litr o ddŵr glân bob blwyddyn.

4 Caewch y tap wrth frwsio eich dannedd – Gall hyn arbed dros 5 litr o ddŵr bob munud! Amcangyfrifir bod cwsmeriaid sydd wedi gwneud hyn eisoes wedi arbed digon o ddŵr i gyflenwi anghenion beunyddiol tua 450,000 o gartrefi.

5 Ewch i'n gwefan a dysgu rhagor am arbed dŵr yn eich cartref ac am gynhyrchion gwych sy'n arbed dŵr. **www.stwater.co.uk/savewater.**